Ysgol Talysarn

Talysarn
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6HR
Ffon: 01286 880885
E.Bost – GlendaEvans@gwynedd.llyw.cymru

Pennaeth/Headteacher: Mrs. Glenda Evans B.A. (Anrhydedd)

27.08.2020

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

Cynlluniau a Threfniadau Ysgol Talysarn ar gyfer Cynllun ail-agor ym Medi 2020

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'ch plentyn yn ôl i'r ysgol ym mis Medi. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i'ch diweddaru am nifer o faterion wrth i chi baratoi ar gyfer hynny.

Rydym fel ysgol wedi bod yn aros am y canllawiau diweddaraf gan yr Awdurdod Lleol er mwyn cynllunio'n ofaus i sicrhau diogelwch pawb wrth inni ddychwelyd i'r ysgol fel bod cymaint o fesuriadau rheoli ag sy'n bosib mewn lle gennym. Ar wefan yr ysgol mae rhestr o Gwestiynau Cyffredin ac atebion i rieni/gofalwyr gan yr Adran Addysg. Gobeithio y byddent o gymorth chi.

Trefniadau ailagor mis Medi – mi fydd yna ail agor graddol gyda gwahanol flynyddoedd yn dychwelyd ar ddyddiau penodol.

Llun 31/8/20	Mawrth 1/9/20	Mercher 2/9/20	Iau 3/9/20	Gwener 4/9/20
GŴYL BANC	DIWRNOD PARATOI	DIWRNOD PARATOI	Dosbarth Derbyn Blwyddyn 6	Dosbarth Derbyn Blwyddyn 6
Llun 7/9/20	**Mawrth 8/9/20**	**Mercher 9/9/20**	**Iau 10/9/20**	**Gwener 11/9/20**
Dosbarth Derbyn Blwyddyn 2 Blwyddyn 4 Blwyddyn 6	Dosbarth Derbyn Blwyddyn 2 Blwyddyn 4 Blwyddyn 6	Dosbarth Derbyn Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 Blwyddyn 4 Blwyddyn 6	Dosbarth Derbyn Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 Blwyddyn 3 Blwyddyn 4 Blwyddyn 5 Blwyddyn 6	Dosbarth Derbyn Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 Blwyddyn 3 Blwyddyn 4 Blwyddyn 5 Blwyddyn 6

Bydd disgyblion Meithrin yn cychwyn ar y 14eg o Fedi.

Amser Cyrraedd a Gadael

- Fe welwch bod amser penodol ar gyfer pob dosbarth i gyrraedd a gadael yr ysgol er mwyn lleihau cysylltiad cymdeithasol rhwng rhieni tu allan i'r ysgol.
- Bydd rhaid i bob rhiant gyrraedd ar amser a dilyn y canllawiau.
- Bydd aelod o staff yr ysgol yn y giât i hebrwng eich plentyn.

- Pe byddech yn dymuno trafod mater penodol wyneb yn wyneb gyda staff yr ysgol mae'r Awdurdod Lleol yn argymell y dylid cysylltu gyda'r ysgol ar y ffón yn y lle cyntaf.

Cyrraedd a gadael yr ysgol

	Meithrin	Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1	Blwyddyn 2 a 3	Blwyddyn 4 5 a 6
Cyrraedd	9.30	9.10	9.00	8.50
Gadael	11.30	2.45	3.00	3.15

Y Dosbarthiadau

- Mae offer diheintio pwrpasol ymhob dosbarth.
- Bydd y disgyblion yn eistedd wrth fyrddau sy'n wynebu blaen y dosbarth. Bydd y byrddau wedi eu gosod 2 fetr oddi wrth oedolion.
- Bydd ffenestri ar agor ymhob dosbarth drwy gydol y dydd.
- Bydd disgyblion mewn grwpiau cyswllt penodol yn ystod y dydd. Rydym yn defnyddio pob ystafell yn yr ysgol er mwyn ceisio cadw grwpiau cyswllt mor fach a phosibl.
- Byddwn yn lleihau cymaint o symud ag sydd yn bosib o amgylch y safle a rhwng dosbarthiadau
- Bydd cysylltiad rhwng disgyblion o ddosbarthiadau gwahanol yn cael eu cadw i'r isafswm.
- Bydd cyfnod amser chwarae wedi ei amserlennu ac bydd y disgyblion yn cael eu cadw o fewn eu grwpiau cyswllt.

Gwybodaeth Feddygol – COVID-19

- Os ydych chi'n rhiant neu'n warcheidwad sy'n gwarchod eich hun, unrhyw blentyn arall neu'n agored i niwed yn feddygol bydd angen i chi hysbysu'r Pennaeth.
- Os yw eich plentyn yn arddangos symptomau COVID-19 bydd rhaid i'ch plentyn aros adref i hunanynysu am oleiaf 10 diwrnod ers i'r symptomau ddechrau a bydd angen i chi drefnu i gael prawf i weld os oes Covid -19 ar eich plentyn.
- Os bydd unrhyw aelod o'r teulu yn arddangos symptomau COVID-19 , bydd angen i'ch plentyn aros adref am 14 diwrnod.
- Bydd y dull 'Olrhain a Phrofi' ar waith yn yr ysgol pe bai unrhyw achos o Covid-19.
- Os bydd eich plentyn yn arddangos symptomau yn ystod y dydd, yna byddwn yn cysylltu â chi yn syth ac yn symud eich plentyn i ystafell ynysu bwrpasol.

Trefniadau Hylendid a Gofal Personol

- Bydd di-heintydd dwylo yn cael ei ddefnyddio wrth i bawb gyrraedd yr ysgol.
- Ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen cymorth cyntaf yn ystod y dydd,bydd staff yn gwisgo PPE llawn.
- Bydd y toiledau'n cael eu glanhau yn gyson yn ystod y dydd.
- Bydd staff yn diheintio offer dosbarth ac adnoddau wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen.
- Bydd trefn golchi dwylo'n digwydd yn rheolaidd yn y dosbarth a bydd di-heintydd dwylo/'hand sanitiser' ar gael hefyd.
- Bydd y dosbarth yn cael ei lanhau yn drylwyr ar ddiwedd pob dydd.

Trefniadau Cinio

- Fe fydd yr ysgol yn darparu cinio am gost o £2.50 y dydd. Caiff disgyblion ddod â bocs bwyd i'r ysgol os yn dymuno.
- Bydd angen i bob disgybl agor cynhwysion ei focs bwyd ei hun a bydd pob pecyn gwag yn gorfod mynd yn ôl adref.
- Bydd y plant yn eistedd o fewn eu dosbarthiadau i gael eu cinio.

Clwb Gofal a Brecwast

- Fe fydd y Clwb Brecwast ar gael i rieni sydd yn **gweithio yn unig** o'r 3ydd o Fedi ond mae rheidrwydd i bob rhiant gofrestru eu plant drwy'r system 'Gateway' a thalu y ffi o £1.00 os am gyrraedd rhwng 8.10 a 8.30.**Gofynnwn i chi gofrestru a thalu cyn bore ddydd Llun bob wythnos**.
- Byddem yn cynnig brecwast yn rhad ac am ddim i bob disgybl arall pan maent yn cyrraedd yr ysgol ar yr amseroedd uchod ac bydd gofyn i bawb gofrestru ar gyfer cael y brecwast yma hefyd drwy'r system 'Gateway' ond ni fydd angen talu.

Mae nifer o fesuryddion diogelu yn cael eu gweithredu er lles pawb, a byddwn yn ymroi i sicrhau bod profiad dysgu eich plentyn yn ystyrlon a hwyliog a hynny mewn amgylchiadau diogel.
Diolch o galon ichi fel rhieni/gwarcheidwaid am eich cefnogaeth barhaus, rydym yn ei werthfawrogi'n fawr.

Dear parent/guardian,

Ysgol Talysarn's Plans and Arrangements for September 2020

We are looking forward to welcoming your child back to Ysgol Talysarn in September. I would like to take this opportunity to update you on a number of matters as you prepare the children for school.

As a school we have been waiting for an up-to-date guidance from the local authority to plan carefully to ensure everyone's safety when we return to school and that we have as many control measures as possible. On the school website a list of Frequently Asked Questions and answers for parents / carers is also available from the Education Department. We hope you find them helpful.
September re-opening arrangements- there will be a gradual re-opening with different year groups returning on specific days:

Monday 31/8/20	Tuesday 1/9/20	Wednesday 2/9/20	Thurday 3/9/20	Friday 4/9/20
BANK HOLIDAY	Preperation day	Preperation day	Reception Year 6	Reception Year 6
Monday 7/9/20	Tuesday 8/9/20	Wednesday 9/9/20	Thursday 10/9/20	Friday 11/9/20
Reception Class Year 2 Year 4 Year 6	Reception Class Year 2 Year 4 Year 6	Reception Class Year 1 Year 2 Year 4 Year 6	ReceptionClass Year 1 Year 2 Year 3 Year 4 Year 5 Year 6	ReceptionClass Year 1 Year 2 Year 3 Year 4 Year 5 Year 6

Nursery children will start on Monday September the 14th.

Arrival and Departure Time

- Children are given a specific time to arrive and leave school to reduce social contact outside school.
- All parents must arrive on time and follow the guidelines.
- Pupils wil be in defined contact groups during the day.
- A member of school staff will be at the gate to escort your child.
- Should you wish to discuss a specific issue face to face with school staff the Local Authority recommends that the school be contacted by telephone.

Arriving and Departure Time

	Nursery	Reception and Year 1	Year 2 and 3	Year 4 5 and 6
Arrival	9.30	9.10	9.00	8.50
Departure	11.30	2.45	3.00	3.15

The Classes

- There is appropriate decontamination 'hand sanitizer' equipment in every class.
- Pupils will sit at tables facing the front of the classroom. The tables will be set 2 meters from adults.
- Windows will be open in all classrooms throughout the day.
- Minimize the movement around the site and between classes
- Contact between pupils from different classes will be kept to a minimum. The school will use every room in the school to create new classrooms so that pupils will be in as small a group as possible.
- The pupils will have staggered playtimes within their groups.

Medical Information – COVID-19

- If you are a parent or guardian who protects yourself, any other child or is medically vulnerable you will need to inform the Headteacher.
- If your child is exhibiting symptoms your child will have to stay home for at least 10 days, starting from when your symptoms started and you should arrange to have a test to see if you have Covid-19.
- If any family member exhibits symptoms, your child will need to stay home for 14 days.
- If your child is exhibiting symptoms during the day, then we will contact you immediately and move your child to a purpose built isolation room.
- The Tracking and Testing method will be in place in the school in the event of a Covid-19 outbreak

Hygiene and Personal Care Arrangements

- A hand sanitiser will be used when everyone arrives at school.
- For those pupils who require first aid during the day, staff will wear full PPE.
- The toilets will be cleaned regularly throughout the day.
- Staff will disinfect classroom equipment and resources as the day progresses.
- There will be regular hand washing in the classroom and a hand sanitiser will also be available.
- The class will be thoroughly cleaned at the end of each day.
- Pupils' playtime will be timetabled.
- Pupils will need to wash their hands before and after playtime.

Lunch Arrangements

- The school dinners will be provided. £2.50 per day to be paid on School Gateway. Pupils may bring a packed lunch to school.Please remember that your child must be abe to open all packaging.
- All empty packages will have to go back home.
- Pupils will eat their lunch in the classroom.

Breakfast and Care Club

The Breakfast Club will be available to parents who are **working only** from September 3rd and all parents are required to register their children through the Gateway system and pay the fee of £1.00 if you wish your child to arrive between 8.10 and 8.30. **We ask you kindly to register for this by Monday morning of every week**.

Every other pupil will be offered breakfast when they arrive at school on the times stated above – the breakfast will be free but you must also register for your child to have free breakfast on the Gateway.

Despite the number of safeguarding measures that will be implemented to ensure the wellbeing of all, we will be committed to ensuring that your child's learning experience is meaningful, enjoyable and within a safe enviroment.
A sincere thank you to you as parents/guardians for your continued support, we really appreciate it.

Yn gywir,
Glenda Evans